SIR GAERFYRDDIN

# Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## IONAWR-MAWRTH 2025

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?






I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur: sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk



## Madfall ddŵr balfog

Mae'r fadfall ddŵr balfog (*Lissotriton helveticus*) fel arfer yn lliw gwyrddfelyn neu'n frown gyda rhai smotiau tywyll. Mae'r ochr isaf yn felyn i oren, ac mae'r gwddf bob amser heb smotiau, yn wahanol i'r fadfall ddŵr gyffredin debyg. Yma, mae gan y fadfall lewcistiaeth – cyflwr lle mae anifail yn colli pigmentiad yn rhannol oherwydd mwtaniad genetig sy'n atal melanin a phigmentau eraill rhag cael eu dyddodi. Mae lewcistiaeth yn wahanol i albinedd oherwydd nid yw'n effeithio ar y celloedd pigment yn y llygaid.



## Gwrych marw

Mae gwrychoedd marw yn gynefinoedd bendigedig – ac, yn eironig, yn llawn bywyd. Maent yn darparu cysgod a chynefinoedd nythu i bob math o fywyd gwyllt, yn ogystal â bwyd i bryfed.

Mae gwrych marw yn cynnwys deunydd prennaidd wedi'i wehyddu rhwng polion fertigol. Mae'n darparu drysfa glymog a gallwch ei adeiladu dros amser, gan ychwanegu ato bob tro y bydd gennych chi ganghennau a brigau ar gael. Gellir defnyddio gwrychoedd marw i annog pobl i beidio â cherdded ar draws ardaloedd sensitif o goetir.

[Adeiladwch wrych marw ar gyfer bywyd gwyllt]



## Ffwng y ddafaden goch

Mae ffwng y ddafaden goch (*Nectria cinnbarina*) yn bathogen (gwan) coed llydanddail. Cafwyd hyd i'r rhain ar ddraenen wen – yn sefyll allan ar gangen ddi-ddail yn ystod y gaeaf. Yma mae'r ffrwythgyrff yn aeddfed ac yn gochlyd ac mae'r 'asgosborau' a gynhyrchir o'r masglau sborau cochlyd bach hyn (perithecia) yn byrlymu pan fyddant yn aeddfed, gan ryddhau'r sborau. Gall glaw a gwynt wasgaru'r asgosborau i safleoedd heintio newydd.



## Storm Darragh

Achosodd Storm Darragh golled sylweddol o goed yn Sir Gaerfyrddin, gyda choed wedi cwympo yn effeithio ar ffyrdd a llwybrau troed, gan arwain at waith glanhau sylweddol. Effeithiwyd ar ardaloedd mawr o fewn coedwigoedd masnachol gydag effeithiau hirdymor posibl ar weithrediadau cynaeafu.

Fodd bynnag, gall difrod stormydd mewn coetir fod o fudd i fioamrywiaeth, gan greu lle ar gyfer tyfiant coed newydd ac aildyfiant naturiol ac amrywio strwythur y coetir, gan ddarparu cynefin pren marw i bryfed a bywyd gwyllt – yn hanfodol, yn caniatáu i'r coetir addasu a dod yn fwy gwydn dros amser.



© Dave Astins





© Theresa Greenway

## Tinwen y diffeithwch

Mae'r ymwelydd prin hwn â Phrydain, a welwyd mewn maes parcio ym Mhentywyn ar 25 Ionawr, yn dinwen y diffeithwch (*Oenanthe deserti*). Daw'r rhan fwyaf o gofnodion o gyfnod yr hydref.

Rhywogaeth bryfysol yw'r aderyn bach, tywyll ei adenydd hwn a geir fel arfer mewn ardaloedd sych, agored gyda llystyfiant prin. Fe'i gwelir yn aml yn clwydo ar byst, llinellau ffôn a thwmpathau creigiau.

Mae'n aderyn mudol ac yn grwydryn prin i orllewin Ewrop, yn bridio yn y Sahara a Phenrhyn Arabia ac yn gaeafu ym Mhacistan a gogledd-ddwyrain Affrica – nid yn Sir Gaerfyrddin!

## *Ulota phyllantha*

Roedd y clwstwr hwn o fwsogl *Ulota phyllantha* ar frigyn coeden onnen a chwythwyd i lawr gan Storm Darragh, mewn gardd yn Felin-gwm. Ar yr olwg gyntaf, mae'n edrych fel petai ffwng wedi ymosod ar yr egin, ond 'gemâu' yw'r adeileddau brown bach ar flaenau'r dail. Anaml y mae'r rhywogaeth hon yn cynhyrchu capsiwlau, felly'r gemâu hyn yw'r prif fodd o atgenhedlu. Mae **gema** yn gell sengl, neu'n gasgliad o gelloedd, neu'n flagur o feinwe wedi'i addasu, sy'n datgysylltu oddi wrth y rhiant ac yn datblygu'n unigolyn newydd.




## Llygoden fronfelen

Gan giledrych allan o'r bocs nythu yn Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, mae'r llygoden fronfelen hon yn rhywogaeth na welir yn aml, a gellir ei chymysgu â llygoden y coed, sy'n fwy cyffredin. Dim ond ym 1834 y cafodd ei hadnabod fel rhywogaeth ar wahân. Mae'n fwy o faint gyda band melyn nodedig o ffwr nad oes gan lygod y coed.

Fel arfer yn greaduriaid nosol, maen nhw'n ddringwyr da, yn teithio pellteroedd mawr mewn coed i chwilio am flagur, hadau neu bryfed bach. Fe'u gwelir gan bennaf mewn hen goetir a gall fod ganddynt systemau tyllau helaeth lle maent yn storio bwyd ac yn nythu gyda'i gilydd yn y gaeaf.



## Cen barf selsig

Un o'n ffyngau amlycaf, mae'r cen barf selsig (*Usnea articulata*) yn rhywogaeth â blaenoriaeth yng Nghymru. Achosodd llygredd diwydiannol ddirywiad, felly erbyn y flwyddyn 2000 roedd yn hysbys ar lai na 15 o safleoedd ar arfordir Sir Benfro a Morgannwg. Mae'n enghraifft dda o rywogaeth, pan ddechreuwch chi chwilio amdani, sydd i'w gweld dros ardal eithaf eang, o Cross Hands i Frechfa i Fynydd Mallaen. Weithiau gall fod yn syniad i chi ganolbwyntio ar gofnodion un rhywogaeth yn unig. Gall cael ffocws unigol yn aml arwain at ganlyniadau.



## Gwehyddu gwrychoedd

Ffustio gwrychoedd yw'r dull mwyaf cyffredin o reoli yn y sir, ond gellir gweld plygu gwrychoedd yn fwy rheolaidd nawr. Yma nid yw'r gwrych wedi'i reoli o gwbl, ond mae tyfiant blynyddol tal y brigau coed cyll wedi'i blethu yn ôl i'r gwrych. Dylai helpu i'w wneud yn ddwysach.



## Derwen hynod

Mae hon yn goeden dderwen hen ond trawiadol. Ond a yw'n hynafol? Mae pob coeden hynafol yn goeden hynod, ond nid yw pob coeden hynod yn ddigon hen i fod yn hynafol!

Mae'r goeden hynod hon wedi bod o gwmpas yn ddigon hir i fod wedi datblygu rhai o'r nodweddion a geir ar goed hynafol – corun llai a siâp isel a bras â boncyff llydan sydd weithiau'n wag.

Fodd bynnag, gallai'r rhain ddeillio o ddifrod naturiol, rheolaeth, neu amgylchedd y goeden. Fel arfer, dim ond yn ystod ail gyfnod neu gyfnod aeddfed eu bywyd y mae coed hynod. Bydd y goeden hon, gobeithio, o gwmpas am beth amser eto.

## Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

- amphibian and reptile conservation
- Butterfly Conservation Wales / Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
- Botanical Society of the British Isles
- buglife
- Bumblebee Conservation Trust / Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn
- The carbon community
- Clwb Adar Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Bird Club
- Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council
- Carmarthenshire Meadows Group / Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin
- Dŵr Cymru / Welsh Water
- Floodplain Meadows Partnership
- Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru / Initiative for Nature Conservation Cymru
- Llanelli Naturalists / Naturiaethwyr Llanelli
- Mid Wales Red Squirrel Partnership / Canolbarth Cymru Partneriaeth Gwiwerod Coch
- National Botanic Garden of Wales / Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol / National Trust
- Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur / Nature Friendly Farming Network
- Project Seagrass
- Plantlife
- RSPB
- Asiant Cefnffyrdd De Cymru / South Wales Trunk Road Agent
- West Wales Biodiversity Information Centre / Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC)
- West Wales Rivers Trust / Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
- WWT
- Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru / Wildlife Trust of South & West Wales
- Coed Cadw Woodland Trust
- VWT Vincent Wildlife Trust

